

Annwyl Gyngorydd Seimon Glyn,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth 2022, yn manylu ar y cynnig gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â Chwaraeon Merched yng Nghymru. Gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi.

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol drwy'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a Strategaeth Chwaraeon Cymru. Er ein bod yn gweithredu fel cyngorydd i'r Llywodraeth a'r sector chwaraeon – mae'n bwysig pwysleisio, nid ydym yn gorff rheoleiddio ac felly ni allwn orfodi mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau penodol. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n holl bartneriaid, a rhanddeiliaid ehangach, i alluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu.

Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan wybodaeth, rydym yn deall bod pob merch, beth bynnag yw ei hoedran, yn wynebu rhwystrau wrth ymwneud â chwaraeon. Rydym yn cydnabod bod y tueddiadau yng Nghymru yn adlewyrchu'r wybodaeth fyd-eang. Rydym yn deall bod merched a genethod yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar raddfa lai, ar gyfartaledd, na dynion a bechgyn, ac yn wynebu rhwystrau sy'n ymwneud â hyder, mynediad, a darpariaeth benodol i rywedd. Am y rhesymau hyn, ac eraill sy'n ymwneud â sicrhau bod chwaraeon yn deg, rydym wedi newid yn bwrpasol y ffordd yr ydym yn buddsoddi mewn chwaraeon yn ystod y 24 mis diwethaf.

Rydym yn defnyddio dull buddsoddi tryloyw sy'n cael ei sbarduno gan ddata ac yn ystyried yn benodol yr effaith y bydd ein partneriaid yn ei chael gyda'u buddsoddiad, ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn pwysoli setiau data cadarn i benderfynu ar gyllid i'r rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd sy'n hygyrch ac yn deg. I ferched a genethod, mae hyn yn golygu bod ein dull buddsoddi yn gwobrwyo partneriaid sydd yn y sefyllfa orau i effeithio ar wella amrywiaeth mewn chwaraeon, gan gynnwys mewn perthynas â chydarddoldeb y rhywiau. Gallwch ddarllen mwy am ein dull o weithredu [yma](#).

Rydych yn tynnu sylw at ddau bwynt yn eich llythyr sy'n ymwneud â'n gwaith ni yn Chwaraeon Cymru:

- Sicrhau bod merched yn cael eu cynrychioli ar fyrdau chwaraeon ar bob lefel.

Rydym yn pennu targedau cydraddoldeb y rhywiau ar gyfer yr holl Gyrrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol (CRhC) yr ydym yn buddsoddi'n uniongyrchol ynddynt. Rydym yn monitro hyn fel rhan o'n meini prawf hanfodol yn unol â'n fframwaith gallu, ar gyfer yr holl CRhC sy'n bartneriaid.

- Sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer chwaraeon merched, yn enwedig ar gyfer pêl droed a rygbi.

Rydym yn rhan o Grŵp Cydweithredu Chwaraeon Cymru Gyfan, sydd hefyd yn cynnwys Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, a Hoci Cymru. Drwy'r grŵp, rydym yn edrych ar leoliad strategol caeau artiffisial ledled Cymru. Drwy gydweithio'n agos, mae'r grŵp yn ceisio deall y dirwedd a'r angen am gyfleusterau o'r fath mewn gwahanol rannau o Gymru, yn seiliedig ar angen a galw. Mae'r rhai sy'n teimlo y gallai eu hardal elwa o gae artiffisial unwaith eto'n cael eu hannog i ymgysylltu â'r awdurdod lleol priodol, y corff rheoli cenedlaethol, a'r gymuned. Mae hefyd yn wir ein bod yn ariannu clybiau a sefydliadau cymunedol drwy Gronfa Cymru Actif a'n cydweithrediad â Crowdfunder, ac mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ffactor arwyddocaol yn ein proses o wneud penderfyniadau. Fel rhan o'r dull ymgeisio – rydym yn holi'n benodol am y ffordd y bydd unrhyw fuddsoddiad yn cefnogi cyfleoedd i ferched a genethod.

Rydym hefyd ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'n dull strategol o weithredu gyda buddsoddiadau cyfalaf, a bydd yr effaith ar gefnogi darpariaeth ar gyfer grwpiau demograffig sy'n cael eu tangynrychioli – gan gynnwys merched a genethod - yn ffactor mawr yn y gwaith hwn.

Mae sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i chwaraeon yn hanfodol i ni yn Chwaraeon Cymru. Rydym yn parhau i roi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenoriaeth graidd yn ein cynllun busnes ac rydym yn adlewyrchu'n barhaus ar yr angen am i chwaraeon esblygu yn unol ag anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys dulliau newydd o fuddsoddi, datblygu partneriaethau newydd ac adolygu ein dulliau o gasglu data a gwybodaeth.

Yn olaf, mae'n bleser gennyf rannu ein bod eleni yn ffurfio partneriaeth â'r Sport and Recreation Alliance i ddod â'r Gweithgor Rhyngwladol Merched mewn Chwaraeon (IWG) i'r Deyrnas Unedig. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y gweithgor [yma](#). Rydym yn falch iawn o gefnogi'r fenter fyd-eang hon ac rydym yn obeithiol am y twf mewn chwaraeon merched y bydd yn ei ddatblygu yn lleol. Rydym wedi pennu pedwar amcan craidd ar gyfer ein partneriaeth a byddwn yn ceisio datblygu'r rhain yn ystod y cyfnod o bedair blynedd y bydd IWG gyda ni yn y DU.

Diolch i chi am roi amser i ysgrifennu atom. Os hoffech gwrdd â chynrychiolwyr o Chwaraeon Cymru i drafod hyn ymhellach, byddwn yn hapus i drefnu hynny gyda'r aelod mwyaf priodol o'n tîm ni.

Dymuniadau gorau,



Brian Davies

Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro Chwaraeon Cymru